Ysgol Rhydypennau

Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AD

Ffôn: 01970 828608 e-bost: prif@rhydypennau.ceredigion.sch.uk

10fed Hydref 2017

Annwyl Riant,

Diogelwch Parcio

Yn dilyn fy nghais drwy lythyr at rieni ar 25ain Medi, gofynnaf unwaith yn rhagor i bawb sicrhau eu bod yn dilyn yr arwyddion unffordd yng nghilfan yr ysgol. Mae hyn er mwyn lleihau unrhyw risg a diogelu pob plentyn a defnyddwyr yr ysgol. Gyda nifer o blant yn croesi'r gilfan er mwyn cerdded neu beicio adref yn annibynnol, nid ydynt yn disgwyl gweld ceir yn dod o'r cyfeiriad anghywir. Mae hyn yn destun pryder i ni, ac rydym wedi cyfeirio'r achos at yr Heddlu. Rydym yn disgwyl ymweliad monitro gan yr Heddlu yn fuan, gyda ffocws ar draffig y tu allan i'r ysgol, tu allan neuadd y pentref a'r gilfan / gorsaf bysiau sy'n arwain i lawr at Grefftau Pennau.

Gofynnwn yn garedig hefyd i chi sicrhau bod y fynedfa i'r maes parcio anabl (tu allan i adeilad newydd y Cyfnod Sylfaen) yn cael ei adael yn rhydd i draffig dod i mewn ac allan ar bob adeg. Mae gennym ni ddefnyddwyr anabl sydd angen mynediad at y maes parcio hwn ar ddechrau a diwedd bob dydd. Byddwn i'n ddiolchgar iawn petaech chi fel rhieni yn sicrhau bod unrhyw un sy'n casglu'r plant o'r ysgol nad sy'n derbyn y llythyr hwn e.e. Mam-gu / Tad-cu yn derbyn y wybodaeth bwysig yma. Diolch am eich cydweithrediad.

Lluniau Ysgol

Bydd lluniau ysgol i unigolion a theuluoedd dydd Gwener hyn, 13eg Hydref. Mae yna gyfle i frodyr a chwiorydd hŷn ymuno i gael lluniau teulu, os ydych yn dymuno – rhwng 8:30 – 9:00.

Ffair Lyfrau

Cyfle olaf fory i brynu / archebu llyfrau o'r stondin Scholastic. Mae yna groeso mawr i chi ddod a'ch plant i neuadd yr ysgol am 3:30yp fory (dydd Mercher) i weld beth sydd ar gael. Diolch

Noson Rieni – 24ain a 25ain Hydref

Bydd amserlen ar gyfer ein nosweithiau rhieni yn cael eu gosod ar ddrysau'r ystafelloedd dosbarth dydd Llun nesaf. Gofynnwn yn garedig i chi archebu lle drwy gofnodi'ch enw yn erbyn amser a dyddiad sy'n gyfleus i chi. Diolch

Diolchgarwch

Ar ddydd Iau 26ain Hydref, byddwn yn cynnal ein Gwasanaeth Diolchgarwch yn Eglwys Llandre am 1:30yp. Mae yna groeso cynnes i chi gyd fynychu'r gwasanaeth.

Dyddiadau

Bydd yr ysgol yn cau am 3:30yp ar ddydd Gwener 27ain Hydref ar gyfer hanner tymor. Bydd yr ysgol yn ailagor ar ddydd Llun 6ed Tachwedd. Mae yna ddiwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd ar ddydd Gwener 17eg Tachwedd, felly **bydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion ar y diwrnod hwn**.

Gan ddiolch i chi am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth i'r ysgol.

Yn gywir Peter Leggett (Pennaeth)

Ysgol Rhydypennau

Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AD
Ffôn: 01970 828608 e-bost: prif@rhydypennau.ceredigion.sch.uk

10th October 2017

Dear Parent,

Parking Safety

Following my letter to parents on 25th September, I ask kindly once again, that everybody adheres to the one way entrance / exit signs signposted in the school layby. This is to help reduce potential risk and safeguard children and users of the premises. We have many children who walk or cycle home independently, and as they cross the layby – they don't expect traffic to be approaching from the wrong direction. This is a concern for us all, which has been reported to the Police. We are expecting a monitoring visit by the Police in the near future with a focus on traffic outside the school, including the village hall car park and the use of the layby / bus stop leading down to Pennau Crafts.

I also ask kindly that the entrance to the disabled car park (opposite the entrance to the layby / outside the new Foundation Phase block) is kept clear at all times. We have disabled users of the premises that require access to this car park at the beginning and end of the day. I'd be very grateful if you could share this information with anyone who drops off or collects your children i.e. Grandparents, who won't get a copy of this letter. Thank you for your cooperation.

School Photos

The school photographer will be with us this Friday (13th October) to take individual and family photos. There will be an opportunity for older / younger sibling to join us for photos between 08:30 – 09:00 if you wish.

Parents' Evening – 24th & 25th October

We will place a timetable for parents' evening on the classroom doors next Monday. We ask kindly that you book a slot by placing your name next to a time and date that is convenient for you. Thank you.

Harvest

Our Harvest Festival will be held in Llandre Church on Thursday 26th October at 1:30pm. Parents and friends are welcome to attend the service.

Dates

School closes for half term on Friday 27th October at 3:30pm. The school reopens to pupils on Monday 6th November. **School will be closed to all pupils on Friday 17th November** for staff INSET training.

With grateful thanks for your cooperation and support to the school.

Sincerely,
Peter Leggett (Headteacher)